OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 2939 (Cy.256)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2009

Gwnaed - - - -	*2 Tachwedd 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*5 Tachwedd 2009*
Yn dod i rym - -	*27 Tachwedd 2009*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(a) ac 17(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2009, ac y maent yn dod i rym ar 27 Tachwedd 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2009

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2009(**2**) fel a ganlyn.

(2) Yn nhestun Cymraeg rheoliad 2(1), yn lle "Rhif XXX/2008" rhodder "Rhif 124/2009".

Gwenda Thomas
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

2 Tachwedd 2009

(**1**) 1990 p. 16. Diwygiwyd adrannau 16 a 17 gan Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p.28), ("Deddf 1999"). Trosglwyddwyd swyddogaethau, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/1972) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) Ddeddf 1999. Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**2**) O.S. 2009/1386 (Cy.142).